# Deddf Cymwysterau Cymru 2015

**2015 dccc 5**

**RHAN 6**

DARPARIAETH BELLACH SY'N BERTHNASOL
I GYDNABOD, CYMERADWYO A DYNODI

*Amlinellu rolau Cymwysterau Cymru ac Ofqual*

**35 Dyfarnu cymhwyster a gymeradwywyd yng Nghymru: cyfyngu ar gymhwyso amodau a osodir gan Ofqual**

(1) Nid yw unrhyw amod y mae cydnabyddiaeth o gorff dyfarnu gan Ofqual o dan adran 132 o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p.22) (cydnabod cyrff dyfarnu) yn ddarostyngedig iddo yn gymwys mewn cysylltiad ag unrhyw ddyfarniad, neu at ddibenion unrhyw ddyfarniad, yng Nghymru gan y corff hwnnw o ffurf ar gymhwyster sydd wedi ei dyfarnu fel cymhwyster a gymeradwywyd (ond nid yw hyn yn effeithio ar gymhwyso, os oes cymhwyso, yr amodau hynny mewn cysylltiad â dyfarnu, neu at ddibenion dyfarnu, yng Nghymru ffurf ar gymhwyster nad yw wedi ei dyfarnu fel cymhwyster a gymeradwywyd, hyd yn oed os yw'r ffurf honno wedi ei dynodi o dan adran 29).

(2) Yn unol â hynny, yn adran 132 o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009, ar ôl is-adran (9), mewnosoder—

"(10) See section 35 of the Qualifications Wales Act 2015 for provision about the effect of conditions imposed by or under this section, in respect of or for the purposes of the award in Wales by an awarding body of a form of a qualification awarded as an approved qualification (for which see section 22(4) of that Act)."

(3) Yn yr adran hon ystyr "Ofqual" yw'r Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau a sefydlwyd o dan adran 127 o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009.

(4) At ddibenion yr adran hon ac adran 36 , dyfarnu ffurf ar gymhwyster yng Nghymru yw ei dyfarnu i bersonau a asesir mewn cysylltiad â'r cymhwyster yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.

**36 Cyfyngu ar gymhwyso amodau a osodir gan Gymwysterau Cymru**

(1) Nid yw unrhyw amod o fewn is-adran (2) ond yn gymwys mewn cysylltiad â dyfarnu, neu at ddibenion dyfarnu, yng Nghymru gan gorff dyfarnu ffurf ar gymhwyster y cydnabyddir y corff o dan Ran 3 mewn cysylltiad â'i dyfarnu.

(2) Yr amodau yw'r amodau y mae cydnabyddiaeth o'r corff o dan adran 8 neu 9 yn ddarostyngedig iddynt.